



## Oedolyn A

Bwriedir i'r astudiaethau achos hyn godi materion mewn cyd-destun ymarferol; gan ddwyn ynghyd y ffactorau hollbwysig, yn enwedig ynghylch gwaith amlasiantaeth. Byddant yn helpu i roi ffactorau risg yn eu cyd-destun a chodi cwestiynau am atal o fewn sefyllfaoedd o gam-drin, esgeulustod a niwed hysbys. Maen nhw wedi'u crynhoi i gynorthwyo gyda'r broses hon, ond mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiadau adolygu go iawn.

### Cyd-destun a chefnidir yr adolygiad

Ym mis Chwefror 2013, lleolwyd Oedolyn A gan Awdurdod (Lleol) A mewn cartref preswyl yn arbenigo mewn dementia y tu allan i'r sir sydd yn ardal Awdurdod B.

Yn anffodus, dri mis yn ddiweddarach, bu farw Oedolyn A yn yr ysbyty. Cofnododd y Crwner mai achos y farwolaeth oedd Emboledd Ysgyfeiniol, Thrombosis Gwythïen Ddofn a Thorri Asgwrn Chwith yr Arffed. Roedd Oedolyn A wedi cael tri chodwm yn y cartref ac yn sgil yr olaf o'r rhain cafodd ei derbyn i'r ysbyty ac ni wnaeth wella o hyn.

Pedwar diwrnod ar ôl marwolaeth Oedolyn A, gwnaed Atgyfeiriad Diogelu Oedolyn Agored i Niwed (POVA) i Awdurdod B.

Gwnaeth y teulu gŵyn ar sut cafodd y broses POVA ei chynnal ac aeth hyn i Banel cam 3. Daeth y broses gwyno i ben ym mis Ebrill 2016 pan gyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei adroddiad terfynol.

Dywedwyd wrth y teulu y gallant gyfeirio at y Bwrdd Diogelu Oedolion i gynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion os nad oeddent yn hapus â'r canfyddiadau yn dilyn eu cwyn, gan gynnwys adroddiad yr Ombwdsmon. Teimlai'r bwrdd nad oedd ei angen, ond ar ôl apelio cafodd y penderfyniad hwn ei wrthdroi ac aeth yr achos yn ei flaen i'r Adolygiad Ymarfer Oedolion.

### Amgylchiadau, a'r heriau a wynebwyd gan yr unigolyn

- Gellid bod wedi derbyn oedolyn A i'r ysbyty yn gynharach.
- Ni roddwyd digon o ystyriaeth i sylwadau a barn staff y cartref gofal am ddirywiad Oedolyn A?
- Teimlai staff y cartref gofal nad oeddent yn rhan o'r continwwm gofal.

### Beth ddigwyddodd?

- Nid oedd y cartref gofal wedi cadw cofnod cywir o sgysiau anffurfiol gyda'r teulu.
- Nid oedd unrhyw gofnod cywir o gwmpadau. Mae'r cofnod yn awgrymu cwmp ond does dim manylion am yr hyn a ddigwyddodd a dim cofnod o unrhyw arsylwadau fel difrod i ddodrefn.



- Roedd diffyg cynllun gofal yn y cartref gofal ar gyfer Oedolyn A.
- Roedd y cartref gofal yn teimlo na allent herio barn y gweithwyr iechyd proffesiynol.
- Nid yw nodiadau meddygol yr ysbyty ond yn dangos gwybodaeth gan y teulu. Does dim gwybodaeth o'r cartref gofal.
- Ni chofnodwyd y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod strategaeth yn y cofnodion.
- Ni chafodd llais teulu Oedolyn A ei gynnwys yn y broses Amddiffyn Oedolyn sy'n Agored i Niwed (POVA).
- Nid oes tystiolaeth bod eiriolaeth wedi'i chynnig i gefnogi teulu Oedolyn A.
- Nid yw amserlenni'n dangos unrhyw dystiolaeth bod unrhyw asiantaeth a oedd yn ymwneud â gofalu am Oedolyn A cyn ei marwolaeth wedi ystyried gwneud atgyfeiriad POVA.
- Ni nodwyd unrhyw berchnogaeth glir ar gyfathrebu â'r teulu, ni nodwyd mai unrhyw un o Awdurdod A na B oedd y prif gyswllt i'r teulu ac nid oes tystiolaeth o gyswllt rhagweithiol â'r teulu.
- Cynghorwyd y teulu i wneud cais am gofnodion y cyfarfod POVA drwy Ryddid Gwybodaeth. Teimlai'r adolygydd y byddai cefnogaeth i'r teulu drwy'r broses hon wedi creu llai o rwystr i'w oresgyn.
- Gofynnodd y cartref gofal i'r gweithiwr cymdeithasol o Awdurdod A adolygu'r lleoliad oherwydd methiant yn y berthynas rhwng y cartref a'r teulu. Ni chynhaliwyd yr adolygiad hwn.

## Pam y digwyddodd?

- Oherwydd diffyg mewnbwn gan staff y cartref gofal wrth iddi gael ei derbyn, dim ond un persbectif a gafodd y staff meddygol ar ofal Oedolyn A.
- Nid oedd y wybodaeth o gofnodion y cyfarfod strategaeth ar gael oherwydd fformat ac roedd hynny'n ei gwneud yn anoddach cofnodi neu nodi pwyntiau allweddol.
- Roedd yr adroddiad yn nodi niwed 'sylweddol' – roedd yr ymadrodd hwn yn anodd iawn i'r teulu ei ddeall.
- Mae'r System Gwybodaeth Cleientiaid wedi adlewyrchu canfyddiadau'r POVA yn fwy cywir ac eithrio'r cofnodion, a doedd hynny ddim yn rhoi eglurder i'r teulu.
- Nid oedd yr adran ar y Cynllun Diogelu yn y cofnodion wedi'i chofnodi'n glir, ac nid cynllun amddiffyn oedd y wybodaeth a oedd ynddi, ond crynodeb o'r trafodaethau a'r materion a godwyd. Nid oedd unrhyw fanylion am y camau i'w cymryd, gan bwy ac erbyn pryd, i amddiffyn eraill yn y lleoliad gofal.
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth o drafodaethau gyda'r teulu ynghylch eu dewis dull cyfathrebu nac amllder y cyfathrebu hwnnw.



- Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod gweithwyr proffesiynol wedi esbonio i'r teulu y broses POVA, goblygiadau ymchwiliadau troseddol a heb fod yn rhai troseddol a 'baich prawf' gofynnol.
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod amserlenni POVA wedi'u hegluro'n glir i'r teulu.
- Mae'n ymddangos na rannwyd unrhyw wybodaeth gyda'r teulu am oedi dilys a achoswyd gan broses ac ymchwiliad annibynnol y crwner.
- Ni chafodd Awdurdod A unrhyw gysylltiad pellach â'r cartref gofal, teulu Oedolyn A nac Oedolyn A nes iddynt gael gwybod am farwolaeth Oedolyn A.
- Cynhaliwyd pum cyfarfod strategaeth yn ystod yr ymchwiliad POVA 15 mis. Dim ond y pedwerydd a'r pumed cyfarfod a fynychodd Awdurdod A. Cyflwynwyd ymddiheuriadau ar gyfer y tri cyntaf.
- Pan dderbyniwyd Oedolyn A i'r cartref gofal nid oedd pecyn gofal a chymorth wedi'i sefydlu, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod un wedi'i weithredu yn ystod ei hamser yn y cartref gofal.
- Mae'r cartref gofal yn mynegi pryderon anecdotaidd na allent ddiwallu anghenion Oedolyn A mwyach a bod angen lleoliad mewn cartref nyrsio arni o bosibl. Ni archwiliwyd hyn ymhellach. Mynegodd y cartref gofal bryderon anecdotaidd hefyd ynghylch eu gallu i reoli rhyngweithio positif gyda'r teulu.

## Argymhellion yr adroddiad

Mae'r adolygiad achos difrifol yn gwneud 12 argymhelliad:

1. Dylid gwella system gofnodi'r cartref gofal er mwyn darparu gwybodaeth fanwl ynghylch amgylchiadau codymau, y lleoliad, tystion, y rhai sy'n bresennol, anafiadau a ddioddefwyd, difrod i eiddo gerllaw, ac ati.
2. Argymhellir cofnodi gwybodaeth am bwy a oedd â rhan yn y cyfathrebu, pa faterion a drafodwyd, pa gamau a gytunwyd (os yn briodol) a phwy fyddai'n gyfrifol am y camau hynny.
3. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bellach yn gosod 'dyletswydd i adrodd' ar asiantaethau. Cyn i'r Ddeddf gael ei gweithredu ym mis Ebrill 2016, roedd disgwyl i asiantaethau ystyried atgyfeiriadau diogelu a chofnodi eu rhesymeg dros beidio â gwneud atgyfeiriadau pe baent yn penderfynu peidio â gwneud.
4. Argymhellir y dylid gwella fformat cofnodion cyfarfodydd strategaeth i'w gwneud yn haws eu darllen. Dylai'r cofnodion adlewyrchu'r drafodaeth yn yr ystafell yn gywir ac nid dyblygu'r wybodaeth a gyflwynir, y gellir ei chyflwyno fel atodiad.
5. Argymhellir bod teuluoedd yn cael cymorth i gael gwybodaeth o dan y prosesau cais mynediad at wybodaeth berthnasol.
6. Dylai camau gweithredu o'r cyfarfodydd strategaeth adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod. 'Argymhellir cwblhau cynllun gweithredu clir (gan gynnwys rolau, cyfrifoldebau ac amserlenni) o fewn cofnodion y cyfarfod strategaeth a bod y cynllun gweithredu hwn yn cael ei adolygu mewn cyfarfodydd dilynol a chofnodi'r canlyniadau'.



7. Argymhellir bod yr adran Cynllun Diogelu Unigolyn/Cyffredinol yn cael ei lenwi i gofnodi'n gywir y cynlluniau diogelu cyffredinol a weithredwyd, hyd yn oed os yw'r unigolyn dan sylw wedi marw.
8. Argymhellir nad yw'r rhesymau dros benderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd strategaeth yn gyfyngedig i'r 'opsionau' yn y gweithdrefnau POVA ond y darperir mwy o fanylion yn y naratif ynghyd â rhesymau/rhesymeg.
9. Argymhellir bod taflen yn cael ei llunio sy'n esbonio'r broses Diogelu Oedolion, gan roi sylw penodol i'r ymchwiliadau troseddol a heb fod yn droseddol (gan gynnwys esboniad o'r baich tystiolaeth), rôl y crwner, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, cefnogaeth eiriolaeth a'r broses gwyno.
10. Argymhellir creu cytundeb cyfathrebu gyda'r defnyddiwr gwasanaeth a / neu ei deulu i gytuno ar bwy fydd ei brif bwynt cyswllt proffesiynol, amllder cyfathrebu y cytunwyd arno gan y teulu neu'r defnyddiwr gwasanaeth a'r dull cyfathrebu a ffefrir (er enghraifft. e-bost , galwad ffôn, ac ati).
11. Argymhellir datblygu canllawiau i gynorthwyo darparwyr a chomisiynwyr i gefnogi'r cyfathrebu rhwng cartrefi gofal a theuluoedd pan fo anawsterau a gwahaniaethau barn yn codi.
12. Argymhellir bod pob awdurdod lleol sy'n ymwneud â phroses diogelu oedolion yn mynychu cyfarfodydd strategaeth, yn cymryd cyfrifoldeb am gamau gweithredu perthnasol ac yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

## Cyfeiriadau

Pierce, A. a Davies, J. (2018)  
APR3/2016/Conwy  
Bwrdd Diogelu oedolion Gogledd Cymru

[www.safeguardingboard.wales/2018/06/17/extended-adult-practice-review-north-wales-4-2016-conwy](http://www.safeguardingboard.wales/2018/06/17/extended-adult-practice-review-north-wales-4-2016-conwy)